

LOCWS INTERNATIONAL 2009

**ART ACROSS THE CITY
SWANSEA**

**CELF AR DRAWS Y DDINAS
ABERTAWE**

**LOCWS
INTERNATIONAL
2009**

**ART ACROSS THE CITY
SWANSEA**

**18 APRIL – 10 MAY
2009**

**LOCWS
RHYNGWLADOL
2009**

**CELF AR DRAWS
Y DDINAS, ABERTAWE**

**18 EBRILL – 10 MAI
2009**

LOCWS
INTERNATIONAL

PUBLICATION COPYRIGHT | HAWLFRAINT Y CYHOEDDIAD
© Locws International 2009

TEXTS COPYRIGHT | HAWLFRAINT Y TESTUNAU
Anthony Shapland
David Hastie
Grace Davies

ARTWORKS COPYRIGHT | HAWLFRAINT Y GWEITHIAU CELF
Tanya Axford
Megan Broadmeadow
Neville Gabie
Paul Granjon
Neeme Külm
Marko Mäetamm
Aisling O’Beirn
Calum Stirling

PHOTOGRAPHY | FFOTOGRAFFIAETH GAN
Ken Dickinson
www.kenswebsite.co.uk

DESIGNED BY | DYLUNIWDYD GAN
Christian Lloyd

PRINTED BY | ARGRAFFWYD GAN
MWL Print Group
Printed on FSC Accredited paper

PUBLISHED BY
Locws International
16 J-Shed
Kings Road
Swansea
SA1 8PL
Tel: + 44 (0) 1792 468979

CYHOEDDWYD GAN
Locws Rhyngwladol
16 J-Shed
Heol Y Brenin
Abertawe
SA1 8PL
Ffôn: + 44 (0) 1792 468979

ISBN 978-0-9545291-2-3

LOCWS INTERNATIONAL 2009

4 INTRODUCTION
David Hastie and Grace Davies

8 SIGHTSEER
Anthony Shapland

ARTISTS
20 Tanya Axford
26 Megan Broadmeadow
32 Neville Gabie
38 Paul Granjon
44 Neeme Külm
50 Marko Mäetamm
56 Aisling O’Beirn
62 Calum Stirling

68 ARTIST BIOGRAPHIES

70 LOCWS SCHOOLS

74 THANKS

76 ABOUT LOCWS INTERNATIONAL

77 CONTACT

LOCWS RHYNGWLADOL 2009

6 CYFLWYNIAD
David Hastie a Grace Davies

14 YMWELYDD
Anthony Shapland

ARTISTIAID
20 Tanya Axford
26 Megan Broadmeadow
32 Neville Gabie
38 Paul Granjon
44 Neeme Külm
50 Marko Mäetamm
56 Aisling O’Beirn
62 Calum Stirling

68 BYWGRAFFIADAU’R ARTISTIAID

70 YSGOLION LOCWS

74 DIOLCH

76 GWYBODAETH AM LOCWS

77 CYSWLLT

INTRODUCTION

David Hastie, Director
Grace Davies, Project Manager

For Locws International 2009, we invited eight artists from across Europe to create new artworks in response to aspects of the city of Swansea. The artists all spent time in the city exploring its history, heritage, people, architecture and culture, and in response to their findings, created a broad variety of new temporary artworks. Working in a variety of media, the artworks were displayed in public locations across the central and maritime district of the city, allowing a wide audience to experience and interact with them, bringing new opportunities for cultural discourse and debate.


The diversity of work in this year's event exposed not only the multi-faceted layers that comprise Swansea and its inhabitants, each piece telling its own story about the site in which it was placed and the themes upon which it reflected, but the sculptures, performances, films and installations each explored a specific place at a specific time and in doing so challenged and revealed aspects of the city which are often overlooked or taken for granted. The artists offered observations, commentary, statements and enquiries that each uniquely explored the context within which their work was made, be it political, physical, geographical, cultural, economic or social, and presented new meanings and ideas to be raised and discussed and old ones to be challenged and reconsidered.

Collaboration is vital to the work of Locws International, and the process of producing the artworks this year involved exciting new collaborations with numerous individuals, organisations and groups in Swansea, without whose support and participation the event would not have been possible. From filmed bus journeys to newspaper campaigns and vanishing statues, to aquatic dances and floating shoes, the artists wove themselves into the fabric of the city and forged partnerships that have produced artworks that have inspired and fascinated.

The educational programme continues to flourish and our celebrated Locws Schools programme once again inspired some remarkable responses from the students involved. Guided tours, college and group visits were facilitated and again a Locws Symposium was held, offering further discourse on Locws International's events within a wider social context.

This catalogue documents the event as a whole, and in the essay that follows Anthony Shapland reflects upon his experience of Locws International 2009 and its impact and presence across the city of Swansea.

We would like to extend our thanks to everyone who made this project possible, particularly the artists, our funders and supporters and the all the people who have worked tirelessly to see the event succeed.



CYFLWYNIAD

David Hastie, Cyfarwyddwr
Grace Davies, Rheolwr Prosiect

Ar gyfer Locws Rhyngwladol 2009, gwahoddm wyth artist Ewropeaidd i greu celfweithiau newydd mewn ymateb i agweddau ar fywyd Abertawe. Treuliodd yr artistiaid amser yn archwilio hanes, treftadaeth, pobl, pensaernïaeth a diwylliant y ddinas, ac wrth ymateb i'w canfyddiadau, crëwyd amrywiaeth eang o gelfweithiau cyfoes, newydd. Yn gweithio mewn amrywiaeth o gyfryngau, arddangoswyd y celfweithiau mewn mannau cyhoeddus ar draws rhanbarthau canol a morol y ddinas, gan alluogi cynulleidfa eang i'w profi a rhyngweithio â hwy, a chyflwyno cyfleoedd newydd ar gyfer trafod a dadlau diwylliannol.

Amlygodd amrywiaeth gwaith eleni haenau aml-ffasedaidd Abertawe a'i phobl, yn ogystal â phob darn yn dweud ei stori ei hun am y safle ble y'i lleolwyd a'r themâu yr oedd yn adlewyrchu arnynt, ond hefyd roedd y cerfluniau, y perfformiadau, y ffilmiau a'r gosodiadau oll yn archwilio lle penodol ar amser penodol, ac wrth wneud hynny, yn herio a datgelu agweddau'r ddinas sydd yn aml yn cael eu hanwybyddu neu eu cymryd yn ganiataol. Cynigodd yr artistiaid arsylwadau, sylwebaeth, datganiadau ac ymholiadau a oedd oll mewn ffordd unigryw yn archwilio cyd-destun eu gwaith, boed yn wleidyddol, corfforol, daearyddol, diwylliannol, economaidd neu gymdeithasol, a chyflwyno ystyron newydd a syniadau newydd i'w codi a'u trafod, a hen rai i'w herio a'u hailystyried.

Mae cydweithio yn hanfodol yng ngwaith Locws Rhyngwladol, ac roedd y broses o gynhyrchu celfweithiau eleni yn cynnwys cydweithio cyffrous â nifer o unigolion, sefydliadau a grwpiau yn Abertawe, a heb eu cefnogaeth a'u cyfranogiad hwy ni fyddai'r digwyddiad wedi bod yn bosib. O daith bws yn cael ei ffilmio i ymgyrchoedd papur newydd a cherfluniau'n diflannu, i ddawnsiau dyfrol ac esgidiau'n arnofio, gweodd yr artistiaid eu hunain i ffabrig y ddinas a ffurfio partneriaethau sydd wedi galluogi celfweithiau sydd yn ysbrydoli ac yn swyno.

Mae'r rhaglen addysg yn parhau i ffynnu ac mae'n rhaglen Ysgolion Locws unwaith eto wedi ysbrydoli rhai ymatebion anhygoel gan y myfyrwyr a gymerodd ran. Hwyluswyd teithiau tywys, ymweliadau coleg a grŵp, ac unwaith eto cynhaliwyd Symposiwm Locws, yn cynnig trafodaeth bellach ar ddigwyddiadau Locws Rhyngwladol o fewn cyd-destun cymdeithasol ehangach.

Mae'r catalog hwn yn dogfennu'r digwyddiad yn ei gyfanrwydd, ac yn y traethawd sy'n dilyn mae Anthony Shapland yn myfyrio ar ei brofiad o Locws Rhyngwladol 2009 a'i effaith a'i bresenoldeb ar draws dinas Abertawe.

Hoffem ddiolch i'r holl bobl a wnaeth y prosiect yn bosib, ac yn arbennig yr artistiaid, ein harianwyr a'n cefnogwyr, a'r holl bobl sydd wedi gweithio'n ddiflino dros lwyddiant y digwyddiad.



SIGHTSEER

Anthony Shapland

Anthony Shapland is an artist and co-founder of g39, Cardiff.

Standing on a patch of scrubland high above I can look down on the city below. My eye can move from the foot of the hill past the conurbation and look out to the empty sea, swelling and falling back from the stone and concrete steps that mark its boundary. Up here I could live out a hermitage of sorts. No neighbours, nothing between my feet and the earth, no roof above my head, exposed to the elements but not watched. Here I can be truly alone.

As soon as I walk down into the streets I am watched: from windows, passing cars, people and the unblinking lenses of cameras. I look and you look back; you return my glance, reciprocating in your part of the exchange. The city can't stop looking back at itself. A modern day Narcissus, it gazes at its reflection in its mirrored walkways, looks back at itself through CCTV lenses, and admires what it has become. The modern city monitors every movement made through it, every change in its shape, in the patterns of the people that walk, work, eat, play, drink and stumble in its streets. It is obsessed with how it looks, with the sheen of commerce, the civic pride in walkways and planters, its own shifting and fluid history, its trades, feuds and scars. Every city is monitored. Not the sinister all-seeing eye of Big Brother; the eyes that watch are too human, fallible and temperamental to be so calculating. Somewhere behind a bank of monitors sits a camera operative with a mug of tea whose charge it is to look for changes in patterns, behaviour that interrupts the flow of life. Peaks in activity that are to be restored to the flatline of time passing. They watch and they wait, they stare into space, observe people, blink and get distracted like the rest of us. They are the audience to the city's performance.

They have been witnessing the activities of a group of artists that have been changing the city in different ways. These projects have grown out of the fabric of the city, from its rhythms, the hum

of its motor and the depth of its histories. The city has been re-translated by artists and these fleeting changes will soon disappear and settle back to form a new layer of navigation on the palimpsest that has formed its map, its blueprint. These artists have been coming and going over the last decade and their interventions can seem like folly, neither use nor ornament. What can these interlopers know of the true heart of the place? Unaffected by commerce or civic pride they provoke laughter, curiosity, contemplation, disgust, anger, boredom and admiration. They offer us another point of view; another mirror in which to see things that may have been obscured by time, unheard over the clamour or deliberately buried by the new version the city has of itself.

Several artists have attempted to capture or record something of this fleeting city. Neville Gabie's work *Land and Sea* uses a pen to chase the view as he orbits the city on a number of journeys and the impossibility of getting this record fixed and concrete becomes more apparent. In parallax motion the objects further away seem more permanent than the hectic and fast changing foreground. As the landscape slips by the nib drags through distant hills at a leisurely pace, though the urban, populated foreground is frantic, people move, the bus moves, the vibrations of the engine interrupt the flow that seems so easy further afield. The motion is punctuated by the stops of the bus and it is these moments that the details are hurriedly absorbed into the building lines of the drawing. While I watched, jostled in the rush of the busy lives of those around me, static in the flow of people I was aware of being watched by a camera¹. A quick look around and I saw three trained on me and the work, a freeze frame in the continuum.

Adopting a similar, drawn approach Aisling O'Beirn's series of works *Some Swansea Sites* make another

record of the shifting nature of the city. She has amassed a collection of drawings that have more to do with a kind of anthropomorphic collection of views, corners and incidents that perhaps escape the gaze of the camera². The drawings have been introduced to the city in two ways; they have been gradually distributed as an edition with a local paper³ and ultimately pasted up on hoardings in several spaces across the city. This dissemination reminded me of Eastern Bloc democratisation of news, posted in squares to allow them to be read by anyone. Each collection is idiosyncratic. One shows weeds, those green fuses that push their way through aggregate and tarmacadam, unfettered by concrete bricks or stone that would repopulate the city if they were unhindered. This collection shows places in which they have done just that. Another set shows street furniture, an intriguing mix of landmarks and incidents, accidents and planning. Another collection of ships has the addition of Starship Swansea (aka The Enterprise) dropped into its history and this points toward a new way of seeing things. History is, after all, that which is discovered, recorded and passed on and these collections of images build a compendium of here and now, even with the tongue-in-cheek nature of the artist's humour.

Neeme Külm takes a different approach to writing history in an apparently simple intervention: a statue is removed from sight⁴. Dylan Thomas is boxed like a crate ready for shipping, or a concrete pour. With literary prowess and wayward artistic meanderings Thomas is a symbol of the hellraising artist. He loved and hated the city and Wales in equal measure but has become possibly one of our greatest exports, revered and loved globally, quoted more frequently than we know, often without the speaker knowing it. And now he has been ignominiously incarcerated in a box and people seem unaware that the bronze eyes of the poet now stare into darkness. We're used



to this kind of screening on buildings but here it is a particularly human scale, there is no space inside for workers to manoeuvre around the statue, it is simply obscured. Like Schrödinger's cat⁵, we have to believe that it still exists on this spot for this work to function. It's like a memory game: if something that we have become so used to seeing is suddenly obscured, do we notice that it is missing, or are we just left with a vague and indistinct feeling of loss? Or for those in the city who tire of the same stories, the same clichés, perhaps relief?

Several of the works have a temporary feel about them, like props produced for a swift change of scene. One of these is Megan Broadmeadow with her nautical sculpture *Ship-Shape*⁶. She is absorbed in prop making and scenery, make believe and fantasy, in the transformative power of costume and the fun that can be had in taking this step. Sometimes it is as though real life is almost too much for her and she alters its veneer of believability and looks at another way, another possible world of make believe and fairytale. The dressing up here has the sincerity of a child who has daubed herself with lipstick and put tiny feet into oversize shoes rather than the parent-preened, look-at-me dressing up of a beauty pageant. This is Technicolor and feminine and has no problems with kitsch. Bobbing gently in the breeze, this sculpture is homespun, an oversized surreal leftover from an abandoned film set which is aching to be taken seriously as a frivolous possibility.

The sculptural assemblage *Graveground* by Marko Mäetamm⁷ has a similar sense of having been left behind. It re-visits the recent work of the artist that is outwardly playful in content but hides a shocking confession. The artist has generated a mythology that his art career would flourish unhampered if things were different. It is a "What if?" speculation that we all may have; "What if I hadn't met

him? What if I had left her?" but it usually goes unspoken; Mäetamm has broken the biggest taboo and speculated about how life might have been without his wife, without children. This piece is less direct than previous work; it talks of lost innocence, decay and the inevitability of change. Even the barriers that surround the piece (which I imagine are a result of Health & Safety rather than a sculptural intervention) seem appropriate. Dysfunctional childhood playthings are strewn, broken and collapsed. Primary colours peel away to reveal rust that is taking over the structure. This seems to be territory that is out of bounds and not to be revisited, out of the control of the artist and unattainable.

Elsewhere Calum Stirling's *Tilt-Shift* scatters disused props across a lawn, precisely drawn like an elegant marquetry picture⁸. But these are scaled up beyond the fine sawdust and glue bottles of the marquetry hobbyist. These are laid out in a way that implies a set point, a perfect view that has been stylised and simplified beyond anything natural. The material – wood – is trimmed to describe a tree; it is Chinese in style and gives us a hint at the original source material. East meets west in the pottery held in National Waterfront Museum Swansea⁹ and this 3D version of the view has its origins there. Each prop sits like a layer of glaze. This landscape in its original ceramic form was about surface decoration rather than perspective or reality. Each element was composed to fill a gap from one perspective. In 3D they seem awkward and uneven from all but the ultimate viewing angle. But here we can wander, like giants, disproportionate strangers in this oddly scaled world. It is like visiting Portmeirion¹⁰ with its wrongly scaled grandeur, and like Broadmeadow's ship it allows us to step out of the commonplace world we're in and momentarily inhabit a different landscape.





Melodrama gives way to drama in Tanya Axford's film *There Is Nothing Left Of The Sea But Its Sound*¹¹. A simple view as water peaks and troughs to a musical score, a full orchestra spills out passionate, emotive strings. Everything points toward high drama: a shipwreck, a drowning, a loss or a rescue. But here the water is too blue, the waves too regular, the reflections too consistent. We seem to be in another film set, a contained pool, a wave machine. So concerned and absorbed are we by the surface values of the water, and its believability as a wild ocean, that it is a shock to see a swimmer below the surface, someone who is ready for the sea, costumed and prepared. The soundtrack that promised so much drama now hovers between a film score and a choreographic beat, a guide for a highly precise, graceful synchronised swim to camera. We know that beneath the water this performance is driven by frantic, kicking legs and pinching nose-plugs that keep out chlorine but we absorb ourselves in the spectacle before the film loops and we are dropped out to sea again.

Paul Granjon introduces no props to the city but transforms an existing landmark, a macho monument of redevelopment. In *Sail Bridge Music Action* he presides over a performance and sets the rhythm that rumbles through the taut steel, shakes the soles of our feet and rattles vertebra by vertebra into the brain. He has summoned two tribes, east and west, suited, booted and kitted with percussive paraphernalia and faux territorial aggression. The performance, out of place in the sunshine of this Saturday afternoon is an echo of the real life performance of Friday night twelve hours earlier when similarly suited, booted and beery men sang, shouted and fought the streets. But here there is something more vulnerable: the suits don't quite fit, the voices are at different pitches, the choreography of the clash and the nonsensical chants of *Shi-un-ee-boots* are more comical and perplexing. "Is that

Welsh?" somebody whispered while I wondered if the bridge could take the strain. As obsessed by robots and artificial intelligence as he is, Granjon also knows the fastest way into the hardwired collective emotional core of people. Rhythm prompts a collective response like no other, initiating a dance dialogue that you have no choice but to join, even if it's one toe tapping, hidden safely inside your shiny boots, you have joined the tribe.

When we travel, when we remove the familiar, everything is vivid. We encounter the unfamiliar everywhere, different noises, customs, light and language. It is exhilarating as we view the world through the curious eyes of a child. But in our everyday existence we quickly absorb our surroundings, we make subconscious decisions about what to pay attention to and what to ignore in the patterns around us in the same way as the CCTV operatives. We see but we don't really look. The interventions by the artists arrest this process and we are forced to look, to think and to negotiate as they interrupt the city with different props and different scenery.

1. Watched by Quadrant Security CCTV
2. Apparently not, these billboards were watched by Tesco, The LC, VUE, Traffic calming, Civic Centre, Marriot Hotel, Steve Evans Optometrist and Technium CCTV
3. South Wales Evening Post published the drawings as a collectable series throughout the event
4. Watched by National Waterfront Museum CCTV
5. Schrödinger's cat is a thought experiment, often described as a paradox, devised by Austrian physicist Erwin Schrödinger in 1935. It presents a cat that might be alive or dead, depending on an earlier random event, concealed within a box and was intended as a discussion to illustrate the putative incompleteness of quantum mechanics. According to Schrödinger the cat remains both alive and dead until the box is opened. Schrödinger did not wish to promote the idea of dead-and-alive cats as a serious possibility; quite the reverse: the thought experiment serves to illustrate the bizarreness of quantum mechanics and the mathematics necessary to describe quantum states
6. Watched by CCTV on the doorway of National Waterfront Museum
7. Watched by CCTV on The LC
8. Watched by the National Waterfront Museum CCTV
9. From the National Museum Wales collection
10. Portmeirion is an Italianate resort village, on the coast of Snowdonia in North Wales built by Sir Clough Williams-Ellis
11. Watched by CCTV on Network Yacht Brokers and The LC

YMWELYDD

Anthony Shapland

Mae Anthony Shapland yn artist ac yn gyd-sylfaenydd g39, Caerdydd

Wrth sefyll ar ddarn o dir prysg yn uchel fry, gallaf edrych i lawr dros y ddinas islaw. Gall fy llygad symud o droed y bryn heibio’r gytref i edrych allan i’r môr gwag yn ymchwyddo ac yn cwympo yn ôl o’r grisiau cerrig a choncrit sy’n dynodi ei ffin. Yma, gallaf fyw bywyd meudwy o fath. Dim cymdogion, dim byd rhwng fy nhraed a’r ddaear, dim to uwch fy mhen, yn agored i’r elfennau ond heb neb yn gwylio. Yma, gallaf fod yn hollol ar fy mhen fy hun.

Y funud rwy’n cerdded i lawr y strydoedd, rwy’n cael fy ngwylio: o ffenestri, ceir sy’n pasio, a chan bobl a lensys camerâu nad ydynt yn smicio. Rwy’n edrych arnoch chi, ac rydych yn edrych yn ôl arnaf i; rydych yn ciledrych arnaf i gan gwblhau’r cyfnewid. Ni all y ddinas beidio ag edrych yn ôl arni ei hun. Mae’n Narcissus y byd modern, mae’n sylly ar ei hadlewyrchiad yn ei llwybrau cerdded drychaidd, yn edrych yn ôl ar ei hun drwy lensys CCTV, ac yn edmygu’r hyn y mae wedi datblygu ynddi. Mae’r ddinas fodern yn monitro pob symudiad oddi mewn iddi, pob newid yn ei siâp, ym mhatrymau’r bobl sy’n cerdded, yn gweithio, yn bwyta, yn chwarae, yn yfed ac yn baglu yn y strydoedd. Mae ganddi obsesiwn â’i gwedd, gyda llewyrch masnach, y balchder dinesig mewn llwybrau cerdded a blychau planhigion, ei hanes newidiol, ei masnachau, ei gelyniaeth a’i chreithiau. Caiff pob dinas ei monitro. Nid llygad Brawd Mawr sinistr sy’n gweld popeth; mae’r llygaidd sy’n gwylio’n rhy ddynol, ffaeledig ac anwadal i fod mor graff. Rhywle, y tu ôl i fanc monitorau, y mae gweithredwr camera yn eistedd gyda mwg o de sy’n gyfrifol am wyllo am newidiadau yn y patrymau, ymddygiad sy’n amharu ar lif bywyd. Brigau mewn gweithgaredd a fydd yn cael eu hamsugno’n ôl i ddyfnderoedd amser. Maent yn gwylio ac maent yn aros. Maent yn sylly i’r gofod, yn arsylwi ar bobl, yn smicio ac yn caniatâu i’w sylw gael ei dynnu fel pawb arall. Maent yn gynulleidfafa i berfformiad y ddinas.

Maent wedi bod yn dystion i weithgareddau grŵp o artistiaid sydd wedi bod yn newid y ddinas mewn ffyrdd gwahanol. Mae’r prosiectau hyn wedi tyfu o ffabrig y ddinas, o’i rythmau, o si ei modur a dyfnderoedd ei hanesion. Mae’r ddinas wedi cael ei hail-ddehongli gan artistiaid a bydd y newidiadau byrhoedlog hyn yn diflannu’n fuan ac yna bydd gan y ddinas haen newydd o ymlwybro dros y palimpsest sydd wedi ffurfio’i map, ei glasbrint. Mae’r artistiaid hyn wedi bod yn mynd ac yn dod dros y degawd diwethaf ac mae eu hymyriadau’n gallu ymddangos fel ffwlbri: nac yn ddefnyddiol nac yn addurniadol. Beth gall yr ymyrwyr hyn wybod am wir galon y lle? Heb i fasnach na balchder dinesig effeithio arnynt, maent yn ysgogi chwerthin, chwilfrydedd, myfyrdod, ffieidd-dra, dicter, diflastod ac edmygedd. Maent yn cynnig barn arall i ni; drych arall er mwyn gweld pethau efallai sydd wedi’u tywyllu gan amser, heb eu clywed dros y bloeddiadau neu wedi’u claddu’n fwriadol gan fersiwn newydd y ddinas.

Mae sawl artist wedi ceisio dal neu recordio rhywbeth yn y ddinas ddiflannol hon. Mae gwaith Neville Gabie *Land and Sea* yn defnyddio pin i ddilyn yr olygfa wrth iddo deithio o gwmpas y ddinas ar sawl taith ac mae’r amhosibilrwydd o sefydlu ei gofnodion yn dod yn fwyfwy amlwg. Mewn symudiad paralacs, mae’r gwrthrychau sydd ymhellach i ffwrdd yn fwy sefydlog na’r blaendir cynhyrfus sy’n newid yn gyflym. Wrth i’r tirlun fynd heibio, mae’r nib yn llusgo trwy’r bryniau pell yn hamddenol, er bod y blaendir dinesig, poblog yn gyffrous. Mae pobl yn symud, mae’r bws yn symud, mae dirgryniadau’r injan yn amharu ar y llif sy’n ymddangos mor rhwydd ymhellach i ffwrdd. Mae’r symudiad yn cael ei atalnodi wrth i’r bws stopio ac yn yr eiliadau hyn mae’r manylion yn cael eu hamsugno’n gyflym i linellau adeiladu’r dyluniad. Wrth i mi wyllo, gan gael fy ngwthio a’r penelino ym mhrysurddeb bywydau’r rhai o’r hamgylch, yn gwbl lonydd yn llif y bobl, roeddwn yn ymwybodol

fod camera yn fy ngwylio¹. Gwnes i fwrw golwg cyflym o’r cwmpas a gwelais dri chamera yn edrych arnaf a’r gwaith yn ffrâm wedi’i rhewi yn y continwmm.

Yn ei chyfres o waith *Some Swansea Sites*, mae Aisling O’Beirn wedi mabwysiadu ymagwedd debyg i arlunio cofnod arall o natur newidiol y ddinas. Mae hi wedi cronni casgliadau o luniadau sy’n ymwneud yn fwy â math o gasgliad anthropomorffig o farn, corneli a digwyddiadau sydd efallai y tu hwnt i gyrhaeddiad y camera². Cafodd y lluniadau eu cyflwyno i’r ddinas mewn dwy ffordd: cawsant eu dosbarthu’n raddol fel argraffiad yn y papur lleol³ ac yna cawsant eu gludo ar hysbysfyrdau mewn sawl man ar draws y ddinas. Roedd y math hwn o ledaenu yn fy atgoffa o sut câi newyddion ei ddemocrateiddio yn yr hen Floc Dwyreiniol lle roeddent yn ei osod mewn sgwariau er mwyn i bawb ei ddarllen. Mae pob casgliad yn hynod. Mae un yn dangos chwyn, y ffwsys gwyrdd hynny sy’n gwthio’u ffordd drwy agreg a tharmacadam heb eu rhwystro gan friciau concrit na cherrig a fyddai’n ail-boblogi’r ddinas os na chânt eu hatal. Mae’r casgliad hwn yn dangos mannau lle y maent wedi gwneud yr union beth. Mae set arall yn dangos celfi stryd, cymysgedd chwilfrydig o dirnodau a digwyddiadau, damweiniau a chynllunio. Mae casgliad arall o gychod yn cynnwys *Starship Swansea* (a adwaenir fel The Enterprise) yn ei hanes ac mae hyn yn arwydd o ffordd newydd o weld pethau. Mae’n hanes, wedi’r cyfan, sy’n cael ei ddarganfod, ei gofnodi a’i drosglwyddo ac mae’r casgliadau hyn o luniadau’n ffurfio crynodeb o’r presennol, hyd yn oed â natur ysgafn hiwmor yr artist.

Mae gan Neeme Kûlm ymagwedd wahanol at ysgrifennu hanes mewn ymyriad syml o bob golwg: mae cerflun yn cael ei guddio⁴. Mae Dylan Thomas wedi cael ei osod mewn bocs fel cawell yn barod i fynd ar long, neu dywallt concrit. Gyda medrusrwydd llenyddol a mympwyon artistig anghonfensiynol,



mae Thomas yn symbol o'r artist cythryblus. Yr oedd yn dwlu ar y ddinas a Chymru ac yn eu casáu yr un mor gryf ond mae'n bosib mai ef yw un o'n hallforion gorau erioed. Mae'n cael ei barchu a'i garu ledled y byd, yn cael ei ddyfynnu'n amlach nag y gallwn wybod, yn aml heb i'r siaradwr wybod. Ac yn awr y mae wedi'i garcharu'n warthus mewn bocs ac mae pobl heb wybod bod llygaid efydd y bardd yn syllu i'r tywyllwch. Rydym wedi arfer â'r math hwn o sgrinio ar adeiladau, ond yma y mae ar raddfa ddynol. Nid oes lle y tu mewn i weithwyr symud o gwmpas y cerflun. Y mae wedi cael ei guddio. Fel cath Schrödinger⁵, mae'n rhaid i ni gredu ei fod yn bodoli o hyd yn y man hwn er mwyn i hyn lwyddo. Mae hi fel gêm gof: os yw rhywbeth yr ydym wedi arfer ag ef yn diflannu'n sydyn, ydyn ni'n sylwi ei fod ar goll, neu a oes gennym ymdeimlad amwys ac aneglur o golled? Neu i'r rhai yn y ddinas sydd wedi diflasu ar yr un hen straeon, yr un ystrydebau, dyma ryddhad efallai?

Mae gan sawl darn o waith dan sylw nawys gyfoes, megis propiau a grëwyd ar gyfer newid golygfa sydyn. Un o'r artistiaid sy'n gyfrifol am y darnau hyn yw Megan Broadmeadow gyda'i cherflun morwrol *Ship-Shape*⁶. Mae'n ymgolli ym myd creu propiau a golygfeydd, mewn creu byd dychmygol a ffantasi, ym mhŵer gweddnewid gwisgoedd a'r hwyl sydd i'w chael wrth gymryd y cam hwn. Weithiau, mae fel petai bywyd go iawn yn ormod iddi ac mae'n newid wyneb pethau credadwy ac yn edrych i gyfeiriad gwahanol, i fyd posib arall o ddychymyg a straeon tylwyth teg. Mae gan y gwisgo lan yma ddiwylliedd plentyn sydd wedi dwbio'i hun â minlliw ac wedi'i rhoi ei thraed bychain i mewn i esgidiau rhy fawr yn hytrach na merch bert hunan-ymwybodol mewn parêd harddwch sydd wedi cael ei phincio gan ei rhieni. Mae'n amryliw ac yn fenywaidd heb fod yn kitsch. Mae'n rhwyfo'n dawel yn yr awel ac mae'r cerflun a wnaed gan law fel darn mawr swrrealaidd dros ben o set ffilmiau wag sy'n ysu i rywun ystyried ei defnyddio ar fymppy.

Mae gan gasgliad o gerfluniau Marko Mäetamm⁷, *Graveground*, nawys debyg o fod wedi'i adael ar ôl. Mae'n cynnwys elfennau gwaith diweddar yr artist sy'n chwareus o ran cynnwys ond sy'n cuddio cyfaddefiad arswydus. Mae'r artist wedi creu mytholeg y byddai'n ddilyffeithair petai pethau'n wahanol. Dyma'r "Beth os?" sydd gennym oll efallai; "Beth os na chwrddais ag ef? Beth os oeddwn wedi'i gadael hi?" ond fel arfer nid oes neb yn siarad am hyn. Mae Mäetamm wedi torri'r tabŵ mwyaf gan ddyfalu sut byddai ei fywyd heb ei wraig a heb ei blant. Mae'r darn yn llai uniongyrchol na'i waith cynt; mae'n siarad am ddiniweidrwydd coll, dadfeiliad ac anochledd newid. Mae hyd yn oed y rhwystrau sy'n amgylchynu'r darn (sydd o ganlyniad i iechyd a diogelwch yn hytrach nag ymyrraeth gerfluniol) yn ymddangos yn addas. Mae tegau camweithredol o blentynod rhywun ar y llawr wedi torri. Mae lliwiau sylfaenol yn pilio i ddatgelu'r rhwd sy'n casglu ar y cerflun. Mae'n debyg bod hon yn diriogaeth sy'n waharddedig ac ni ddylid ail-ymweld â hi; mae y tu hwnt i afael yr artist ac yn anghyraeddadwy.

Rhywle arall, mae *Tilt-Shift* Calum Stirling, sy'n dangos propiau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar wasgar dros lawnt, wedi'i lunio fel llun argaenwaith⁸. Ond mae'r rhain yn fwy na brawd llif mân a photeli glud yr hobiwr argaenwaith. Gosodir y rhain mewn modd sy'n awgrymu golygfa berffaith sydd wedi'i harddullio a'i symleiddio y tu hwnt i unrhyw beth naturiol. Mae'r deunydd - pren - wedi'i dacleso i gyfleu coeden; y mae mewn arddull Tsieineaidd ac yn rhoi awgrym am darddiad gwreiddiol y deunydd. Mae'r Dwyrain yn cwrdd â'r Gorllewin yn y crochenwaith yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe⁹, ac mae gan y fersiwn 3D hwn o'r olygfa ei darddiad yno. Mae pob prop yn bodoli fel haen o wydredd. Diben y dirwedd hon ar ei ffurf ceramig wreiddiol oedd addurno wyneb y crochenwaith yn hytrach na phersbectif neu





realiti. Cyfansoddwyd pob elfen i lenwi bwlch o un persbectif. Maent yn ymddangos yn lletchwith ac yn anesmwyth mewn 3D o bob ongl ond yr ongl golwg eithaf. Ond yma, gallwn grwydro fel cewri, dieithriaid anghymesur yn y byd hwn ar ei raddfa hynod. Y mae fel ymweld â Phortmeirion¹⁰, gyda'i ysblander ar raddfa anghywir, ac fel llong Broadmeadow, mae'n ein galluogi i gamu allan o'r byd cyffredin rydym ynddo a phrofi tirwedd wahanol am eiliad.

Mae drama yn disodli melodrama yn ffilm Tanya Axford *There Is Nothing Left Of The Sea But Its Sound*¹¹. Golygfa syml wrth i ddŵr godi a chwympo i sgôr gerddorol, a cherddorfa lawn yn cyflwyno offerynnau llinynnol emosiynol. Mae'r holl waith yn ddramatig: llongddrylliad, boddi, colled neu achub. Ond yma, mae'r dŵr yn rhy las, mae'r tonnau'n rhy reolaidd, mae'r adlewyrchiadau'n rhy gyson. Mae fel petai ein bod ar set ffilmiau arall, gyda phwll hunangynhaliol a pheiriant tonnau. Cymaint yw ein pryder a'n diddordeb ynghylch gwerthoedd arwyneb y dŵr, a'i gredadwyedd fel môr gwyllt, mae'n syndod gweld nofiwr islaw'r arwyneb, rhywun mewn gwisg sy'n barod i fynd i'r môr. Mae'r trac sain a oedd wedi awgrymu cymaint o ddrama i ddod bellach yn hofran rhwng sgôr ffilm a churiad coreograffeg, arweiniad ar gyfer nofio manwl gywir, gosgeiddig cydamseredig i'r camera. Rydym yn gwybod, islaw'r dŵr, mae'r perfformiad yn cael ei yrru ymlaen gan goesau gorwyllt sy'n cicio ac yn dal plygiau trwyn i gadw'r clorin allan, ond rydym yn ymgolli yn yr olygfa cyn i'r ffilm droi mewn cylch ac rydym yn ôl yn y môr unwaith eto.

Nid yw Paul Granjon yn cyflwyno unrhyw bropiau i'r ddinas, ond mae'n trawsffurfio tirnod cyfredol, cerflun dynol o ailddatblygu. Yn *Sail Bridge Music Action*, mae'n llywyddu dros berfformiad ac yn gosod y rhythm sy'n furmur drwy'r dur tynn sy'n ysgwyd sodlau ein traed ac yn rhuglo fertebra wrth

fertebra i'r ymennydd. Mae wedi galw dau lwyth, o'r dwyrain a'r gorllewin, ac wedi'u gwisgo a rhoi pac iddynt gydag offer ac wedi'u portreadu gyda chwant ffug i frwydro dros diriogaeth. Mae'r perfformiad, sydd allan o le yn heulwen y prynhawn dydd Sadwrn hwn, yn adlais o berfformiad bywyd go iawn nos Wener ddeuddeg awr yn gynharach pan roedd dynion tebyg llawn cwrw yn canu ac yn gweiddi ac yn ymladd yn y strydoedd. Ond yma ceir elfen lawer mwy diameddifyn: nid yw'r siwtiau'n ffitio'n gywir, mae'r lleisiau'n gyweiriau gwahanol, mae rheoli'r gwrthdrawiad a siantiau diystyr *Shi-un-ee-boots* yn fwy doniol a chythryblus. "Ai'r Gymraeg yw hwnna?" meddai rhywun yn dawel wrth i mi bendroni a allai'r bont gymryd y straen. Mae Granjon yn hoff iawn o robotau a deallusrwydd artifisial ond er hyn mae'n gwybod y ffordd gyflymaf i graidd emosiynol pobl. Mae rhythm yn annog ymateb cyfunol heb ei ail, sy'n annog deialog ddawns nad oes gennych unrhyw ddewis ond ymuno â hi. Hyd yn oed os un bys troed yn unig sy'n curo yn eich esgidiau sgleiniog, rydych wedi ymuno â'r llwyth.

Pan rydym yn teithio, pan rydym yn diddymu'r cyfarwydd, mae popeth yn glir. Rydym yn dod ar draws yr anghyfarwydd ym mhob man: synau, arferion, golau ac ieithoedd gwahanol. Mae'n gyffrous gweld y byd trwy lygaid chwilfrydig plentyn. Ond yn ein bywydau pob dydd, rydym yn ymgolli'n gyflym yn ein hamgylchiadau, rydym yn gwneud penderfyniadau yn ein hisymwybod am yr hyn i dalu sylw ato a'r hyn i'w anwybyddu yn y patrymau o'n hamgylch, yn yr un modd â gweithredwyr y camerâu CCTV. Rydym yn gweld ond nid ydym yn edrych yn wirioneddol. Mae'r ymyriadau'r artistiaid yn gafael yn y broses hon ac yn ein gorfodi i edrych, i feddwl ac i gyd-drafod wrth iddynt ddehongli'r ddinas gyda propiau a golygfeydd gwahanol.

1. Gwyliwyd gan gamerâu CCTV y Cwadrant
2. Nid mewn gwirionedd, gwyliwyd yr hysbysfyddau hyn gan gamerâu Tesco, LC, VUE, offer tawelu traffig, y Ganolfan Ddinesig, Gwesty'r Marriott, Steve Evans Optometrist a Technium
3. Cyhoeddodd South Wales Evening Post y lluniau fel cyfres gasgliadwy drwy gydol y digwyddiad
4. Gwyliwyd gan gamerâu CCTV Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
